



Funded by
UK Government



Sir Ddinbych Ffyniannus

Prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig i gefnogi arloesi mewn busnes a datblygu economaidd yn Sir Ddinbych

Nodiadau Canllaw

16^{eg} Ebrill 2025

Sir Ddinbych Ffyniannus

Nodiadau Canllaw

CYNNWYS

	Tudalen
1. Beth yw Sir Ddinbych Ffyniannus?	3
2. Sut i gael cyngor a chyflwyno cais	4
3. Pwy sy'n cael gwneud cais?	5
4. Pa gymorth sydd ar gael gan Fusnes Cymru?	5
5. Pa gymorth grant sydd ar gael?	8
6. Llenwi Ffurflen Gais	12
7. Y broses cyflwyno cais	13
8. Telerau ac Amodau	13


Atodiadau

A. Llenwi Ffurflen Hawlio Taliad	16
B. Tystiolaeth Canlyniad	19

1. Beth yw Sir Ddinbych Ffyniannus?

Mae Sir Ddinbych Ffyniannus wedi derbyn cyfran ychwanegol o gyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (UKSPF), a fydd yn darparu £42,416,709 ychwanegol o gyllid ar gyfer buddsoddiad lleol ar draws Gogledd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Nod yr UKSPF yw cyflawni hyn drwy dair blaenoriaeth fuddsoddi: 1) Cymunedau a Lle; 2) Cefnogi Busnesau Lleol; 3) Pobl a Sgiliau.

Mae'r darluniad isod yn nodi sut mae'r themâu (ac is-themâu) newydd o dan SPF 2025-26 yn berthnasol i'r blaenoriaethau o dan y SPF blaenorol. Roedd y darluniad hefyd yn nodi'r themâu a'r is-themâu sy'n gysylltiedig â'r 5 cenhadaeth gan Lywodraeth y DU.



Ffynhonnell Paragraff 6: [UK Shared Prosperity Fund 2025-26: Technical note - GOV.UK](#)

Mae nod y prosiect yn cyd-fynd â nod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i roi hwb i gynhyrchedd, cyflogau, swyddi a safonau byw trwy dyfu'r sector preifat, yn canolbwyntio ar gefnogi mentrau bach a mentrau micro yn Sir Ddinbych. Yr amcanion yw:

- Creu swyddi a hybu cydlyniad cymunedol trwy fuddsoddi sy'n adeiladu ar ddiwydiannau a sefydliadau sy'n bodoli eisoes, ac yn amrywio o gefnogi busnesau sy'n dechrau i welliannau gweladwy yng nghyfleusterau'r sector manwerthu, lletygarwch a hamdden lleol.
- Cynyddu buddsoddi gan y preifat sector mewn gwella gweithgareddau, trwy gefnogaeth wedi'i thargedu i fusnesau bach a busnesau micro i gyflwyno arloesi sy'n newydd i'r busnes, mabwysiadu technolegau a thechnegau carbon isel, ynni effeithlon sy'n hybu cynhyrchedd a dechrau neu gynyddu eu gweithgareddau allforio.

Mae [Prospectws Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig](#) yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r gronfa.

Bydd prosiect Sir Ddinbych Ffyniannus yn cefnogi mentrau bach a mentrau micro yn uniongyrchol yn Sir Ddinbych drwy ddarparu dau gynllun grant tuag at gostau'n gysylltiedig â chyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd:

1. Prosiectau mawr: Grant cyfalaf a refeniw 70%, gyda uchafswm cyfanswm gwariant y prosiect o £50,000 (sef £35,000 o gyllid grant a £15,000 o gyllid arian cyfatebol gan yr ymgeisydd). Rhaid gwneud cais am isafswm grant o £3,000.
2. Grant i fusnesau micro sy'n dechrau a busnesau bach: hyd at 100% o grant refeniw gydag uchafswm gwariant y prosiect o £2,000. Er mwyn galluogi'r gronfa i gyrraedd cymaint o fusnesau ag y bo'n bosibl bydd cyfraniad arian cyfatebol yn sgorio'n uwch pan fydd yn cael ei ystyried gan y panel. Rhaid gwneud cais am isafswm grant o £1,000.

Bydd busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd sydd wedi dechrau yn gymwys i gyflwyno cais, a gall mentrau cymdeithasol gyflwyno cais hefyd. Bydd y prosiect yn galluogi mentrau i arloesi; defnyddio technolegau ynni effeithlon a charbon isel a threialu cynhyrchion, prosesau a darparu gwasanaethau. Bydd canolbwynt ar ehangu busnesau, cefnogi cyflwyno technolegau arloesol a ffyrdd newydd o wneud busnes.

1. Sut i gael cyngor a chyflwyno cais

Y man cyswllt cyntaf i unrhyw un â diddordeb yn y cynllun yw sgwrsio gyda'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes.

E-bost: donna.hughes@cadwynclwyd.co.uk

Rhif ffôn: 07833 084352 / 01490 340500

Bydd y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes yn medru:

- Darparu gwybodaeth am y cynllun
- Ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi
- Gwirio a ydych chi'n gymwys i wneud cais
- Trafod eich syniadau ar gyfer y grant o ran cynhyrchion a/neu brosesau newydd
- Eich cynorthwyo gyda llenwi'r Ffurflen Gais
- Os yw eich prosiect chi'n gymwys, trefnu cymorth busnes gan gynghorydd Busnes Cymru
- Cynorthwyo ymgeiswyr llwyddiannus gyda llenwi'r ffurflen hawlio taliad.

2. Pwy sy'n cael gwneud cais?

Dim ond busnesau newydd, busnesau micro a busnesau bach yn Sir Ddinbych gaiff wneud cais. Rhaid i fentrau fod â chyfeiriad gweithredol yn Sir Ddinbych. Caiff busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau bach newydd ymgeisio, yn ogystal â mentrau cymdeithasol.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn diffinio busnes micro neu fusnes bach fel busnes sy'n meddu ar unrhyw ddau o'r nodweddion isod:

- Trosiant o £10.2 miliwn neu lai
- £5.1 miliwn neu lai ar y fantolen
- 50 neu lai o gyflogeion.

Mae'r ymgeiswyr cymwys yn cynnwys:

- Masnachwyr unigol
- Partneriaethau
- Cwmnïau cyfyngedig
- Cydweithredfeydd

- Mentrau cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf o sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau yn gymwys. Nid yw busnesau a chostau amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth yn gymwys. Nid yw prosesu cynhyrchion amaethyddol i gynhyrchu cynhyrchion amaethyddol eraill yn gymwys. Nid yw busnesau a chostau cludo llwythi ar y ffyrdd yn gymwys ychwaith. Nid yw marchnata amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a chludiant cludo llwythi yn gymwys. Hefyd nid yw gweithgareddau'n gysylltiedig ag allforio a chymorth sy'n dibynnu ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau wedi'u mewnfario yn gymwys. Ni fydd busnesau trin gwallt, harddwch na ffitrwydd yn gymwys oni bai eu bod yn dangos yn sylweddol bod budd economaidd yn Sir Ddinbych o ran swyddi a thwf – buasai hyn yn fwy addas i fusnesau cyfredol, yn hytrach na busnesau newydd sy'n dechrau arni. Os oes, gennych unrhyw gwestiwn sy'n gysylltiedig â'r sectorau hyn, ffoniwch y swyddog grantiau ar 07833 084352.

Gellir cael arweiniad ynghylch ffrydiau cyllid amgen ar gyfer busnesau amaethyddol gan Cyswllt Ffermio (08456 000 813).

Ni chaiff unrhyw sefydliad sy'n cyflwyno cais gael mwy nag un prosiect cymeradwy dan y cynllun hwn.

3. Pa gymorth sydd ar gael gan Fusnes Cymru?

Bydd mentrau cymwys sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y cynllun yn cael eu cyfeirio at gynghorydd Busnes Cymru a fydd yn rhoi cymorth i'r ymgeisydd lunio Cynllun Busnes a Rhagfynegiad Llif Arian i gefnogi eu cais. Trefnir hyn gan y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes. Ni chaiff eich cais ei anfon at y panel am benderfyniad heb fynd drwy'r broses hon.

Mae [Busnes Cymru](#) yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, micro, bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth ddarparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, yn cynnwys cyrchu cynghorwyr cyffredinol ac arbenigol, gweithdai a gweminarau, pecynnau ar-lein a mentoriaid. Yn ychwanegol at weithio gyda chi ar gynllun diagnosis busnes a chynllun gweithredu, gall cynghorwyr Busnes Cymru ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a'ch cynorthwyo i gael gafael ar gymorth perthnasol arall.

4. Pa gymorth grant sydd ar gael?

Bydd ymgeiswyr yn medru gwneud cais am:

1. Prosiectau mawr: grant cyfalaf a refenw 70%, gyda uchafswm gwariant y prosiect o £50,000 (sef £35,000 o gyllid grant a £15,000 o arian cyfatebol gan yr ymgeisydd). Rhaid gwneud cais am grant isafswm o £3,000.
2. Grant i fusnesau micro sy'n dechrau a busnesau bach: hyd at 100% o grant refeniw gyda chyfanswm gwariant y prosiect o £2,000. Er mwyn galluogi'r gronfa i gyrraedd cymaint o fusnesau a phosibl bydd cyfraniad arian cyfatebol yn sgorio'n uwch pan fydd y cais yn cael ei ystyried gan y panel. Rhaid cyflwyno cais am isafswm o £1,000.

SYLWCH:

1) Os caiff eich cais ei gymeradwyo, bydd gofyn i chi ariannu y pryniannau ymlaen llaw ac yna hawlio'r gwariant yn ôl gan Cadwyn Clwyd.

2) Rhaid bod gennych - neu fod yn y broses o sefydlu - cyfrif banc busnes sy'n cyfateb i'r enw busnes ar y cais. Ni fydd cyllid grant yn cael ei dalu i gyfrif banc personol.

Pa gostau sy'n gymwys?

- **Costau i fentrau fynd i'r afael ag effaith y busnesau ar newid hinsawdd ac uchelgeisiau sero net.** Er enghraifft, gallai hyn gynnwys prynu technolegau a chyflwyno technegau ynni effeithlon, carbon isel, sy'n gwella cynhyrchedd.
- **Costau sy'n galluogi mentrau i gyflwyno prosesau newydd.** Er enghraifft, gallai gynnwys meddalwedd i reoli'r rhestr eiddo/stoc, neu dalu am wasanaethau i ddatblygu prosesau masnachu electronig newydd ar gyfer bwcio neu brynu gwasanaethau.
- **Costau i fenter ddatblygu a chynhyrchu cynhyrchion newydd.** Er enghraifft, gallai hyn gynnwys costau llogi neu brydlesu offer a pheiriannau i ddylunio neu gynhyrchu cynhyrchion newydd.

Blaenoriaeth allweddol i'r prosiect yw cefnogi mentrau i fynd i'r afael â'u huchelgeisiau sero net; cyflwyno cynhyrchion newydd a/neu brosesau newydd nad yw'r fenter wedi'u darparu o'r blaen. Bydd pwyslais ar gefnogi cyflwyno technolegau arloesol a ffyrdd newydd o wneud busnes. Bydd cynigion arloesol mewn ceisiadau grant yn sgorio'n uchel yn y broses gwerthuso ceisiadau. Gall prosesau newydd wella cynhyrchedd, cynyddu trosiant, cynyddu proffidoldeb a chyfran y farchnad, drwy wneud y busnes yn fwy cystadleuol. Byddai prosiectau sy'n gymwys yn arferol yn cynnwys ehangu, arallgyfeirio a moderneiddio busnes sy'n bodoli eisoes. Gallai'r gwariant fod ar fuddsoddi newydd mewn asedau, fel eitemau offer bach, buddsoddi mewn strategaeth farchnata neu weithredu technoleg lleihau carbon i wella safonau gwyrdd busnes sy'n bodoli eisoes.

Rhaid i'r holl gostau cymwys ymwneud â chyflwyno cynhyrchion a phrosesau newydd.

Bydd y costau cymwys yn cynnwys:

- Gwaith adeiladu
- Ffioedd am wasanaethau proffesiynol
- Costau ymgynghorydd (yn cynnwys costau cefnogol e.e. teithio, cynhaliaeth ac ati)
- Ymchwil y farchnad
- Cynlluniau pensaernïol
- Costau hyfforddiant
- Cost llogi lleoliad
- Costau marchnata
- Eitemau offer bach
- Costau llogi i gynnal prosiect peilot

Pa gostau sy'n anghymwys?

Ni chaiff y rhai sy'n derbyn grant hawlio costau anghymwys o'r rhestr hon, nad yw'n holl-

gynhwysol, dan unrhyw amgylchiadau:

- Eitemau na chafodd eu cymeradwyo gan y panel sgorio
- Prynu eitemau gydag arian parod
- Costau staffio / cyflogau neu unrhyw gostau staffio cysylltiedig (e.e. costau teithio, cynhaliaeth ac ati)
- Costau cynnal, yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i daliadau rhent, yswiriant, cyfleustodau ac ati
- Stoc neu ddeunyddiau crai
- Eitemau tafladwy, yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i napcynnau, cwpanau coffi tafladwy, cling ffilm ac ati
- Talu am lobio, sy'n golygu defnyddio cronfeydd grant i gyllido lobio (trwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn cyflawni gweithgareddau i ddylanwadu ar neu geisio dylanwadu ar y Senedd, y Llywodraeth neu weithgarwch gwleidyddol, neu geisio dylanwadu ar weithredu deddfwriaethol neu reoleiddiol
- Defnyddio cyllid grant i alluogi un rhan o'r llywodraeth i herio rhan arall ar bynciau nad ydynt yn gysylltiedig â phwrpas cytunedig y grant
- Defnyddio cyllid grant i ddeisebu am ragor o gyllid
- Treuliau, er enghraifft, treuliau diddanu, wedi'u hanelu'n benodol at ddylanwadu er mwyn newid polisi'r llywodraeth
- Treth ar Werth (TAW) y gellir ei hawlio'n ôl gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi; mae TAW na ellir ei adfer gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn gost cymwys dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig
- Taliadau am weithgareddau plaid wleidyddol neu natur grefyddol yn unig
- Cyfraniadau mewn da
- Taliadau llog neu daliadau tâl gwasanaeth cytundebau les cyllid
- Anrhegion neu daliadau am roddion neu gyfraniadau
- Dirwyon statudol, dirwyon neu gosbau troseddol, iawndal neu unrhyw gosta cyfreithiol cysylltiedig
- Costau gwaith neu weithgareddau y dylid eu cyflawni fel dyletswydd statudol, neu gostau sydd wedi'u cyllido'n llawn gan ffynonellau eraill
- Dyledion drwg i bartïon perthynol
- Taliadau am ddiswyddo annheg neu iawndal arall
- Costau dibrisiant neu amorteiddio neu amhariad asedau sy'n eiddo i dderbynydd y grant
- Digwyddiadau annisgwyl ac atebolwydd am ddigwyddiadau annisgwyl
- Difidendau
- Costau'n deillio o ohirio taliadau i gredydwy
- Costau'n gysylltiedig â dirwyn cwmni i ben
- Costau ailstrwythuro cwmni i adfer y cwmni i sefyllfa hyfyw
- Costau cyfreithiol yng nghyswllt cyfreitha
- Costau a ddaeth i ran unigolion wrth sefydlu a chyfrannu i gynlluniau pensiwn preifat
- Taliadau sy'n torri neu sy'n groes i'r cytundeb cyllido neu ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig
- Unrhyw ymrwymadau gwariant roedd y fenter wedi ymrwymo iddynt cyn dyddiad dyfarnu'r cyllid (ni fyddwn yn talu costau ôl-weithredol)
- Unrhyw wariant ar ôl dyddiad diwedd y prosiect/cyfnod y grant
- Unrhyw wariant y darparwyd cyllid dyblyg iddo gan drydydd parti, ar gyfer yr un pwrpas â'r cais am gyllid Sir Ddinbych Ffyniannus, ond na ddatgelwyd i Cadwyn Clwyd.

Ni ellir dyfarnu grantiau sy'n cael effaith berthnasol ar fasnachu rhyngwladol a buddsoddi mewn gwlad arall. Yn ychwanegol, ni all grantiau effeithio ar fasnachu nwyddau a thrydan cyfanwerthu rhwng Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd a rhaid i'r fenter sicrhau nad yw'r grant yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n effeithio ar unrhyw fasnach o'r fath.

Nid yw busnesau a chostau amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth yn gymwys. Nid yw prosesu cynhyrchion amaethyddol i gynhyrchu cynhyrchion amaethyddol eraill yn gymwys. Nid yw

busnesau a chostau cludo llwythi ar y ffyrdd neu trwy'r awyr yn gymwys ychwaith. Nid yw marchnata busnesau amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a chludiant cludo llwythi ar y ffyrdd neu trwy'r awyr yn gymwys. Hefyd nid yw gweithgareddau'n gysylltiedig ag allforio a chymorth sy'n dibynnu ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau wedi'u mewnforio yn gymwys. Nid yw busnesau trin gwallt, harddwch na ffitrwydd ychwaith yn gymwys oni bai bod tystiolaeth sylweddol eu bod yn cyfrannu at swyddi a thwf.

Nid yw cyfalaf gweithiol yn cyfrif fel gwariant cymwys. Ni ellir defnyddio'r grant i ailgyllido atebolrwyddau cwmni.

Bydd angen i ymgeiswyr sydd am wneud newidiadau i adeilad ddarparu copi o'r gweithredoedd neu'r les i ddangos fod ganddynt yr hawl i gyflawni'r prosiect. Os nad ydych chi'n berchen ar y safle neu'r adeilad, bydd rhaid cyflwyno tystiolaeth gan y landlord neu'r perchennog eu bod yn cymeradwyo'r newidiadau a gall yr ymgeisydd fynd ati i gyflawni'r gwaith. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hanelu at greu neu ddiogelu cyfleoedd cyflogaeth, felly, petai prosiect llwyddiannus yn colli swyddi o ganlyniad i gymorth, gallai'r grant gael ei ostwng neu ei adfachu.

Dylid gofyn am gyngor gan y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes lle bo ansicrwydd.

Cyllid Cyfatebol

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu isafswm o 30% o gyllid cyfatebol tuag at gostau eu cais grant. Bydd angen i'r ymgeisydd ddangos ar y ffurflen gais sut mae'r cyllid cyfatebol 30% hwn yn cael ei gyllido. Nid yw cyfraniadau 'mewn da' ('in kind') yn gymwys. Ni chaiff ffynhonnell y cyllid cyfatebol ddeillio o grant arall.

Gallai'r cyllid cyfatebol ddod o adnoddau'r ymgeisydd ei hun, neu trwy gyllid sector preifat arall (banciau ac ati). Gellir gofyn am gyngor ynghylch cyllid cyfatebol cymwys gan y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes.

5. Llenwi Ffurflen Gais

Rhaid gofyn am gyngor gan y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes cyn llenwi ffurflen gais. Mae'r holl ffurflenni a nodiadau canllaw ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a chaiff ymgeiswyr llenwi'r ffurflenni yn eu dewis iaith. Dylid llenwi'r ffurflen gais yn electronig drwy'r cyfrwng ar-lein, Submit. Dylid llenwi pob blwch yn y ffurflen mor drwyadl ag y bo modd. Caniateir un cais yn unig gan bob busnes. Rhaid datblygu cais gyda Chynghoydd Busnes Cymru ac yna ei gyflwyno gan y perchennog busnes ac nid asiant sy'n gweithredu ar eu rhan. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na chaiff ymgeiswyr gael cymorth i helpu gyda llenwi'r ffurflen.

I gyflwyno cais:

- Ni chaiff ymgeiswyr fod yn y broses o geisio cymeradwyaeth, neu wedi cael cymeradwyo cais ar gyfer unrhyw brosiectau Cronfa Ffyniant Gyffredin arall, gan Cadwyn Clwyd neu sefydliad trydydd parti allanol.
- Bydd angen i ymgeiswyr gofrestru cyfrif ar y system grantiau ar-lein (Submit)
- Caiff yr ymgeisydd ei wahodd i lenwi ffurflen gais lawn a chaiff ei gyfeirio at Busnes Cymru.
- Rhaid cyflwyno cynllun busnes 12 mis hyfwrdd a rhagolwg llif arian 12 mis gyda'r Ffurflen Gais (dylid cyflwyno hyn mewn fformat misol ac nid y flwyddyn gyfan). Bydd Swyddog Busnes Cymru yn eich cynorthwyo i lenwi'r dogfennau hyn. Os oes gennych eisoes ragolwg llif arian a chynllun busnes diweddar bydd angen ei addasu i gynnwys eitemau / costau grant rydych yn ymgeisio amdanynt i grant Sir Ddinbych Ffyniannus.
- Medru dangos isafswm o 30% o gyllid cyfatebol i swm y grant wrth wneud cais am y grant mawr (nid yw hyn yn ofynnol ar gyfer y grant Busnesau Micro a Busnesau Bach)

- Cael y llif arian i wneud pryniannau ymlaen llaw ac yna hawlio'r gwariant yn ôl gan Cadwyn Clwyd
- Bod â mynediad i gyfrif banc busnes o ran y busnes sy'n ymgeisio am y grant. Ni fyddwn yn trosglwyddo cyllid grant i gyfrif banc personol.

Llenwi'r Ffurflen Gais:

Atebwch bob cwestiwn, os gwelwch yn dda. Ble nad yw'r cwestiwn yn briodol i'ch sefydiad neu eich prosiect chi, nodwch 'Amherthnasol' os gwelwch yn dda.

Adran 1: Manylion yr Ymgeisydd Dylai'r ymgeisydd nodi enw'r busnes a'r manylion cyswllt yma. Rhaid i gyfeiriad y busnes fod yn Sir Ddinbych i fod yn gymwys i gael y grant. Dylid dynodi pa un yw'r cyfeiriad gohebiaeth i'w ddefnyddio. Dylai'r ymgeisydd feddu ar yr awdurdod i gyflwyno'r cais ar ran y busnes a enwir. Caiff pob busnes a enwir ymgeisio unwaith yn unig.

Adran 2: Manylion y Busnes

Yn yr adran hon gofynnwn am ychydig o baragraffau'n rhoi manylion am yr hyn mae eich busnes chi yn ei wneud a'i hanes. Dylid nodi pryd y dechreuodd y busnes yn glir. Dylid rhoi tic mewn un blwch i ddangos beth yw cyfansoddiad y busnes. Dylai nifer y cyflogeion amser llawn a rhan amser fod yn hafal i gyfanswm nifer y cyflogeion. Nodwch, os gwelwch yn dda, fod angen dogfennau cefnogol ychwanegol gyda'r cais: dyfynbrisiau, cyfrifon y flwyddyn ddiwethaf, Cynllun busnes a rhagfynegiad llif arian ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Adran 3: Gwybodaeth Ariannol Allweddol y Busnes

Dylid rhoi manylion ariannol allweddol y tair blynedd ddiwethaf yma. Os yw'r busnes wedi bod yn masnachu am lai na thair blynedd, yna dylid darparu'r manylion am y blynyddoedd y bu'n masnachu. Os yw'r busnes yn newydd rhwch 0 yn y blychau er mwyn parhau gyda'r cais.

Adran 4: Manylion y Prosiect

Ni chaiff y prosiect fod wedi dechrau eisoes cyn cyflwyno neu gymeradwyo'r cais. Ni chaiff yr eitemau y ceisir y grant ar eu cyfer fod wedi'u prynu eisoes. **Ni ellir dyfarnu cyllid yn ôl-weithredol, mi fydd y busnes angen ariannu'r prynianau o flaen llaw.** Ni chaiff dyddiad gorffen y prosiect fod yn hwyrach na 30ain o Dachwedd 2025. Rhaid cwblhau'r prosiect gan gynnwys allbynnau, erbyn y dyddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys yr amser ar gyfer llenwi'r ffurflen hawlio'r grant a'i chyflwyno i Cadwyn Clwyd am daliad.

Dylai'r ymgeisydd roi manylion pa gynhyrchion a/neu brosesau newydd fydd yn cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r grant hwn. Y mwyaf arloesol yw'r prosiect, yr uchaf fydd y sgôr yn y broses arfarnu'r cais. Dylai'r cynhyrchion a/neu brosesau newydd fod yn weithgareddau newydd i'r busnes.

Dylid rhoi manylion clir yr eitemau i'w prynu gyda'r grant a dylid esbonio sut y bydd yr eitemau hyn yn caniatâu i'r busnes gyflwyno'r cynhyrchion a/neu'r prosesau newydd.

Anogir y busnes i ddangos ar y ffurflen gais na fyddai'r prosiect yn bwrw ymlaen heb y cymorth grant, neu y byddai ar raddfa llawer llai, neu byddai'n digwydd yn rhywle arall.

Adran 5: Deilliannau

Yn yr adran hon bydd yn ofynnol i chi nodi'r deiliant/deilliannau, ffigur targed a rhoi manylion y dystiolaeth y byddwch yn ei chasglu ar gyfer pob un o'r deilliannau hyn. Os oes angen cyngor arnoch ar ba ganlyniadau a thystiolaeth i'w nodi, cysylltwch â'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes (gweler Atodiad B). Bydd y panel arfarnu'r cais yn sgorio eich cais ar sail y deilliannau. Os cymeradwyir y cais bydd y Llythyr Cymeradwyo yn adlewyrchu'r niferoedd / y dystiolaeth a

nodwyd. Ni thelir hawliad am grant nes bo'r holl dystiolaeth wedi'i chyflwyno.

Adran 6: Cyllid y Prosiect

Dyma'r adran ble byddwch chi'n nodi pa un o'r cynlluniau grant rydych chi'n gwneud cais amdanol – y grant mawr (£50,000) neu'r grant bach (£2,000).

Dylid rhoi manylion y nwyddau / gwasanaethau i'w prynu yma, ynghyd â'r dyfynbrisiau. Yn achos eitemau sy'n costio llai na £2,499 mae angen un dyfynbris; o ran eitemau sy'n costio mwy na £2,500 ond llai na £24,999 mae tri dyfynbris yn ofynnol. Bydd angen i unrhyw gostau dros £25,000 ddilyn y broses dendro ffurfiol ar Gwerthwch i Gymru. Rhaid darparu copi o'r dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem gyda'r ffurflen gais. Ni ddylai'r ffigurau gynnwys Treth ar Werth os ydych chi wedi eich cofrestru ar gyfer TAW.

Os yw un neu fwy o'r dyfynbrisiau gan barti sy'n gwrthdaro h.y. aelod o'r teulu, mae proses ar wahân i goladu dyfynbrisiau a rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Prosiect Grant Busnes cyn gofyn am ddyfynbrisiau am arweiniad pellach. Cadwch y ffurflen gais a'r broses hawlio yn syml trwy wneud yr isod:

- Cynnwys hyd at 10 eitem / trafodion yn unig yn y ffurflen gais
- Peidio â chynnwys costau staffio / cyflogau neu unrhyw gostau staffio cysylltiedig (e.e. costau teithio, cynhaliaeth ac ati)
- Peidio â chynnwys costau stoc masnachu na chostau nwyddau traul yn eich cais
- Dim eitemau wedi'u dosrannu
- Talu pob anfoneb ar wahân fel y gellir cyfateb y taliadau'n hawdd gyda'ch datganiad banc
- Osgoi talu am eitemau a gynhwysir yn y grant yn yr un taliad ag eitemau eraill ar gyfer eich cwmni (neu bydd angen i chi ddarparu anfonebau a thystiolaeth yn ymwneud â phob pryniant yn gysylltiedig â'r taliad hwnnw)
- Bydd gwariant a gododd cyn i'ch cais gael ei gymeradwyo gan Cadwyn Clwyd yn cael ei wrthod ac ni fyddwch yn derbyn 70% o werth y pryniant hwnnw
- Osgoi talu am eitemau gan ddefnyddio cerdyn credyd os na fedrwch chi dalu'n llaw. Argymhellwn drafod hyn gyda'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes cyn prynu'r eitem / cyflwyno'r hawliad.

[Rhaid i'r holl brosiectau llwyddiannus fod wedi'u cwblhau ac wedi hawlio'r cyllid erbyn 30ain o Hydref 2025 fan bellaf](#)

Edrychwch ar Atodiad B am fanylion llawn sut i lenwi'r ffurflen hawlio taliad, os gwelwch yn dda.

Cyllid Cyfatebol

Ni fyddwch yn cael anfoneb am 'arian parod' gan Cadwyn Clwyd. **Bydd yn ofynnol i chi brynu'r eitemau a gymeradwywyd ac yna ddarparu tystiolaeth eich bod wedi talu 100% o bris yr eitem, ac yna wrth gyflwyno eich ffurflen hawlio taliad byddwch yn derbyn 70% o werth yr eitem yn ôl gan Cadwyn Clwyd.**

Adran 7: Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau'r Deyrnas Unedig

Dyfernir cyllid grant Sir Ddinbych Ffyniannus dan Gymorth Ariannol Isafswm y Deyrnas Unedig, dan adran [37(2)] [Deddf Rheoli Cymorthdaliadau \(2022\)](#). Mae'n rhaid i ymgeiswyr am gyllid Sir Ddinbych Ffyniannus gydymffurfio ag ymrwymadau Rheoli Cymorthdaliadau'r Deyrnas Unedig. Mae'r holl grantiau'n ddarostyngedig i reolau Rheoli Cymorthdaliadau y Deyrnas Unedig. Cewch ragor o wybodaeth yma: [Guidance on the UK's international subsidy control commitments - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Mae grantiau a ddyfernir trwy'r cyllid hwn yn cael eu cyfri yn Gymorth Ariannol Isafswm, yn unol â

[Deddf Rheoli Cymorthdaliadau \(2022\)](#). Rhaid i'r ymgeisydd gynnwys manylion yr holl gymorthdaliadau a dderbyniwyd, yn cynnwys trwy gynlluniau rhagflaenol megis cynllun de minimis y Deyrnas Unedig, Eithrio Symiau Cyllid Bach (SAFE) a 'Hawliau Tynnu Arbennig' (SDR), a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. **Mae Hawliau Arbennig Tynnu Arian yn uned y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) ac ar hyn o bryd mae 325,000 SDR tua £315,000.** Penderfynir ar y swm sterling cyfatebol trwy ddefnyddio'r trosrwr [International Monetary Fund SDR convertor](#). **Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau nad yw cyfanswm y Cymorth Ariannol Isafswm a ddyfarnwyd i'r fenter yn fwy na chyfanswm o £315,000 mewn unrhyw dair blynedd ariannol dreigl.** Bydd angen i ymgeiswyr nodi'n glir yr holl gymorth a dderbyniwyd yn y cyfnod amser penodedig er mwyn sicrhau nad ydynt yn torri'r rheolau Rheoli Cymorthdaliadau. Mae Cymorth Ariannol Isafswm yn cynnwys cyllid grant a chymorth fel gwasanaethau ymgynghoreaeth, cyngor marchnata ac ati am ddim neu am bris gostyngol. Bydd rhaid i'r ymgeisydd ddangos ar eu ffurflen gais pa brosesau sy'n bodoli i fonitro'r cyllid cyhoeddus a dderbyniwyd gan y fenter ac i fonitro cymorth sy'n ddarostyngedig i Reoli Cymorthdaliadau. Rhaid i'r ymgeisydd gadw cofnodion cymorth a dderbyniwyd am 10 mlynedd. Os torrir y rheolau hyn gallai'r ymgeisydd fod yn atebol i dalu gwerth llawn y cymorth a dderbyniwyd a/neu'r pris llawn a fyddai'n daladwy o ran y gwasanaethau a dderbyniwyd. Bydd Cadwyn Clwyd a Chyngor Sir Ddinbych yn cadw cofnod o'r holl gyllid a ddyfarnwyd.

Adran 8: Cydraddoldeb, y Gymraeg a Sero Net

Yn yr adran hon bydd angen i'r ymgeisydd ddangos eu bod wedi ystyried sut y bydd y cyllid grant yn effeithio ar y themâu ehangach o gydraddoldeb, y Gymraeg a sero net.

Adran 9: Rhestr Wirio Cyflwyno Cais

Ni fydd ceisiadau am grant yn cael eu derbyn heb y dogfennau isod:

- Ffurflen gais wedi'i llofnodi
- Copïau dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem y bwriedir defnyddio'r grant i'w prynu
- Tystiolaeth o gynigion cymorth ariannol – tystiolaeth cyllid cyfatebol (os yw'n berthnasol)
- Cadarnhad o berchnogaeth eiddo (os yw'n berthnasol)
- Cynllun Busnes
- Cyfrifon ariannol y busnes am y flwyddyn ddiwethaf (os yw'n berthnasol)
- Rhagfynegiad llif arian am y flwyddyn nesa
- Tystiolaeth o hunaniaeth drwy pasport neu trwydded yrru (os gofynir)

Adran 10: Datganiad

Dylid llofnodi a nodi'r dyddiad ar y ffurflen gais. Derbynnir llofnodion electronig.

Trwy lofnodi a chyflwyno'r cais mae'r ymgeisydd yn datgan ac yn cadarnhau:

- Mae gen i'r awdurdod i gyflwyno'r cais hwn ar ran y fenter a enwir fel ymgeisydd.
- Rwy'n datgan fod yr holl wybodaeth yn y ffurflen yn gywir ac y gallai gwneud datganiad ffug arwain at weithredu gan Cadwyn Clwyd yn erbyn y llofnodwr i adfer yr arian grant ynghyd â chostau, ffioedd a threuliau cysylltiedig.
- Rwyf wedi darllen a deall y telerau ac amodau ac rwy'n cadarnhau nad wyf wedi dechrau'r prosiect ac nad oes unrhyw wariant wedi'i ymrwymo na'i wario ar y prosiect.
- Rwy'n deall, os wyf yn rhoi gwybodaeth y gwn sy'n anghywir neu'n anghyflawn, bydd y grant yn cael ei hawlio yn ôl a gellid gweithredu yn fy erbyn.
- Rwy'n datgan nad yw'r cyllid cyfatebol arfaethedig ar gyfer y prosiect yn cynnwys unrhyw gyllid sy'n cynnwys neu a ddefnyddiwyd eisoes i ddenu cyllid y Deyrnas Unedig.
- Rwy'n cytuno i ddarparu adroddiad cynnydd ysgrifenedig i Cadwyn Clwyd 3-6 mis ar ôl dyfarnu'r grant (os yw'r cais yn llwyddiannus).

- Rwy'n cytuno i Cadwyn Clwyd gadw fy manylion a'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r grant at ddibenion archwilio am gyfnod o 10 mlynedd o ddyddiad diwedd y Cyfnod Cyllido.
- Rwy'n deall fod rhaid i nwyddau/gwasanaethau a brynir gyda'r cyllid grant gael eu defnyddio ar gyfer y pwrpas a nodwyd yn y ffurflen gais, ac os y'i gwaredir cyn cael cymeradwyaeth gan Cadwyn Clwyd, gellid hawlio'r cyllid grant yn ôl.
- Rwy'n datgan fy mod yn rhoi fy nghaniatâd i'r holl wybodaeth a ddarparwyd gennyf gael ei rhannu gyda Chyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau

- Rwy'n deall fod rhaid i gynllun Sir Ddinbych Ffyniannus gydymffurfio ag ymrwymadau Rheoli [Cymorthdaliadau y Deyrnas Unedig a bod yr holl grantiau'n ddarostyngedig](#) i reolau Rheoli Cymorthdaliadau y Deyrnas Unedig. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yma: [Guidance on the UK's international subsidy control commitments - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)
- Rwy'n deall fod y grant hwn yn ddarostyngedig i reolau Rheoli Cymorthdaliadau y Deyrnas Unedig ac, os byddaf yn derbyn cyllid, byddaf yn derbyn cymorth ariannol sy'n ddarostyngedig i reolau Rheoli Cymorthdaliadau y Deyrnas Unedig.
- Rwy'n deall fod rhaid i mi roi manylion yr holl Gyllid Ariannol Isafswm a dderbyniwyd, yn cynnwys gan gynlluniau rhagflaenol – de minimis y Deyrnas Unedig; 'Eithrio Symiau Bach o Gyllid' (SAFE); 'Symiau Bychan o Gymorth Ariannol' (SAFA); a 'Hawliau Tynnu Arbennig (SDR) – yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, ac rwy'n datgan bod y manylion hyn yn gywir.
- Rwy'n deall, lle y cynigir cymorth fy mod i'n gyfrifol am sicrhau na fydd y trothwy 325,000 o Hawliau Arbennig Tynnu Ariannol (Special Drawing Rights (SDR)) yn cael ei oresgyn. Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau nad yw cyfanswm y Cymorth Ariannol Isafswm a ddyfarnwyd i'r fenter yn uwch na chyfanswm o 325,000 o Hawliau Arbennig Tynnu Ariannol (Special Drawing Rights (SDR)) yn unrhyw gyfnod ariannol tair blynedd olynol. Mae Hawliau Arbennig Tynnu Ariannol yn uned y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) ac ar hyn o bryd mae 325,000 SDR tua £315,000. Penderfynir ar y swm sterling cyfatebol trwy ddefnyddio'r troswr [International Monetary Fund SDR convertor](#).
- Rwy'n datgan nad yw, ac ni fydd, cyfanswm y cyllid cyhoeddus a ddyfarnwyd i'r fenter hon (yn cynnwys y grant hwn) yn fwy na chyfanswm o 325,000 SDR mewn unrhyw gyfnod ariannol tair blynedd yn olynol.
- Rwy'n deall fod rhaid i mi sicrhau fod unrhyw sefydliad sy'n derbyn cymorth yn cadw cofnod o'r cymorth a datgan swm y cymorth i unrhyw gorff dyfarnu sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch faint o gymorth a dderbyniwyd. Byddaf yn cadw cofnodion priodol i ddangos cydymffurfio â Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau ac rwy'n cytuno i gymryd yr holl gamau rhesymol i gynorthwyo'r Awdurdod Arweiniol i gydymffurfio â gofynion y Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau ac ymateb i unrhyw ymchwiliad(au) neu hawliad(au) yng nghyswllt Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau.
- Rwy'n deall ei bod yn ofynnol i mi gyflwyno manylion y system sy'n bodoli i fonitro cymorth a dderbyniwyd.
- Rwy'n deall fod rhaid cadw cofnodion cymorth a dderbyniwyd dan Reolau Rheoli Cymorthdaliadau am 10 mlynedd.
- Rwy'n cydnabod, os nad wyf yn bodloni'r gofynion cymhwys, neu os yw'n torri'r rheolau Rheoli Cymorthdaliadau, gallaf/gallwn fod yn atebol i dalu gwerth llawn y cymorth a dderbyniwyd yn ôl a/neu'r pris llawn a fyddai'n daladwy fel arall o ran y gwasanaethau a dderbyniwyd.
- Rwy'n cydnabod ac yn cadarnhau na fydd y prosiect a gynehlir gan ddefnyddio'r grant hwn yn effeithio ar fasnachu nwyddau a thrydan cyfanwerthu rhwng Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd a bydd yn sicrhau nad yw'r grant yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd sy'n effeithio ar fasnach o'r fath.

6. Y Broses Cyflwyno Cais

Rhaid i'r busnes fedru dangos hyfywedd trwy gyfrwng cynllun busnes neu adolygiad busnes. Cwblheir y broses hon gyda chynrychiolydd Busnes Cymru. Mae ffurflenni cais yn cael eu harfarnu

o ran yr agwedd dechnegol gan Busnes Cymru, cyn mynd gerbron y Grŵp Llywio a Phanel Grantiau Sir Ddinbych Ffyniannus. Bydd ceisiadau sy'n llwyddo yn yr arfarniad technegol yn cael eu hystyried gan y Panel Grantiau, sy'n penderfynu p'un ai i roi cymorth ariannol i brosiect ai peidio.

Bydd penderfyniadau ynghylch ceisiadau yn cael eu gwneud ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gyflwynwyd a gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Bydd ceisiadau'n cael eu sgorio yn erbyn y meini prawf isod at ddiben rhoi ceisiadau mewn trefn flaenoriaeth.

	Meini prawf	Sgôr
A	Arloesi	/20
B	Budd economaidd (yn cynnwys ei gyfraniad o ran swyddi, twf a mynd i'r afael â thlodi)	/20
C	Cyflawni deilliannau (h.y. nifer y swyddi a grewyd, nifer y swyddi a ddiogelwyd ac ati)	/20
D	Gwerth am arian	/20
	CYFANSWM	/80

Rhaid i geisiadau gael sgôr o 48 neu fwy i gyrraedd y trothwy i'w hystyried ar gyfer eu cymeradwyo.

SGOR	DOSBARTHIAID
17-20	Rhagorol – Mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf yn gryf ac yn gadarnhaol a ddarparwyd lefel dda o wybodaeth gefnogol
13-16	Da iawn – Mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf yn gadarnhaol, ond gyda rhai mân bryderon
9-12	Da – Mae'r cynnig yn mynd gryn ffordd i fodloni'r meini prawf sgorio yn gadarnhaol, ond gyda rhai pryderon
5-8	Gwan – Mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf sgorio yn wan yn unig, gyda phryderon, a phrin yw'r dystiolaeth a ddarparwyd
1-4	Gwan iawn – Mae'r cynnig yn darparu achos gwan iawn yn erbyn y meini prawf sgorio, mae pryderon cryf a phrin iawn yw'r dystiolaeth a ddarparwyd
0	Gwael – Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r meini prawf yn foddhaol mewn unrhyw fodd

Mae penderfyniad y Panel Grantiau yn derfynol. Os yw eich cais yn aflwyddiannus, byddwch yn derbyn neges e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau am wrthod y cais. Cewch sgwrsio â chynghorydd Busnes Cymru i ystyried ffynonellau cyllid amgen i'ch cefnogi chi.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn derbyn Llythyr Dyfarniad a Ffurflen Hawlio. Rhaid i chi ymateb i'r cynnig grant cyn pen 10 diwrnod gwaith, neu gallai'r cynnig gael ei dynnu'n ôl.

Cynhelir y broses ymgeisio mewn rowndiau, a phennir y dyddiadau cau gan y Grŵp Llywio a Phanel Grantiau Busnes Sir Ddinbych Ffyniannus.

7. Telerau ac Amodau

Brandio a Chyhoedduswydd

Mae Sir Ddinbych Ffyniannus yn brosiect a gyllidir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig. Mae'n ofynnol i Cadwyn Clwyd roi cyhoedduswydd i'r cymorth a dderbyniwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin wrth gyfathrebu am y prosiect gyda buddiolwyr a/neu'r cyhoedd. Byddwn yn defnyddio logo Llywodraeth y DU isod, a logos Ffyniant Bro, Cyngor Sir Ddinbych a Cadwyn Clwyd hefyd.



Funded by
UK Government



Mae'n bwysig bod y logos wedi'u lleoli yn y drefn gywir. Eu lleoliadau yw: logo Llywodraeth y DU ar y brig ar y chwith; logo Cadwyn Clwyd ar y brig ar y dde; logo Cyngor Sir Ddinbych ar y gwaelod ar y chwith a logo Ffyniant Bro ar y gwaelod ar y dde. Cewch ragor o arweiniad gan y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes. Fel rhan o'r gofynion rhoi cyhoeddusrwydd i'r cymorth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Cadwyn Clwyd, cynghorir y rhai sy'n derbyn grant y bydd manylion am y cytundeb grant yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Yn ychwanegol, bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n derbyn grant:

- Gael eu cynnwys mewn datganiadau i'r wasg gan Cadwyn Clwyd i hyrwyddo'r gronfa a hybu straeon newyddion da am y gronfa, ynghyd â'r cymorth a dderbyniwyd.
- Gael eu cynnwys mewn astudiaethau achos ar-lein gan Cadwyn Clwyd i hybu a chyfathrebu'r cymorth a dderbyniwyd.
- Cymryd rhan yn ymgyrchoedd cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol Cadwyn Clwyd i hybu a chyfathrebu'r cymorth a dderbyniwyd.

Anogir y rhai sy'n derbyn grant i roi cyhoeddusrwydd i'r cymorth a dderbyniwyd trwy eu cyfryngau cyfathrebu eu hunain. Dylai derbynyddion grant ddilyn y canllawiau isod dan amgylchiadau o'r fath:

- Cynnwys logos Llywodraeth y DU Cymru, Ffyniant Bro, Cyngor Sir Ddinbych a Cadwyn Clwyd.
- Cynnwys y testun isod mewn cyfathrebiadau:
"Mae [enw'r prosiect] wedi derbyn £[SWM A DDERBYNIWYD] gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU."
- Wrth ddisgrifio neu hyrwyddo'r grant ar y cyfryngau cymdeithasol dylid defnyddio'r hashnod #UKSPF. Gallai Llywodraeth y DU aildrydar hyn.
- Tagio'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a ganlyn fel y gall Cadwyn Clwyd a'r Awdurdod Arweiniol ymateb a / neu rannu ac aildrydar y cynnwys:

Sefydliad	Llwyfan	Enw
Cadwyn Clwyd	Facebook	@CadwynClwyd
	X	
	Instagram	
Cyngor Sir Ddinbych	Facebook	@Cyngorsirddinbych @DenbighshireCountyCouncil
	X	@CyngorSDd @DenbighshireCC
	Instagram	@cyngorsirddinbych @denbighshirecc

Cydraddoldeb, y Gymraeg a Sero Net

Rhaid i'r holl brosiectau a gefnogir gan grant Sir Ddinbych Ffyniannus gadw at y polisiau a ganlyn:

Cydraddoldeb

Bydd Cadwyn Clwyd yn sicrhau defnyddio dull rhagweithiol i uchafu cyfleoedd o ran cyfraniad y prosiect i bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchoedig, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Felly bydd ystyried effeithiau potensial gweithredoedd y prosiect ar grwpiau nodweddion gwarchoddedig yn ystyriaeth allweddol i grwpiau llywio'r prosiect yn ei swyddogaeth yn cymeradwyo ceisiadau. Dylai ymgeiswyr am grantiau Sir Ddinbych Ffyniannus ystyried, a gweithredu ble bo'n briodol, deilwra gweithredoedd wedi'u cyllido gan grant i ymateb i anghenion mynediad grwpiau nodweddion gwarchoddedig; datblygu prosesau monitro sy'n cynnwys asesiad cydraddoldeb penodol; ymgysylltu'n weithredol â mudiadau a grwpiau cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r rhai â nodweddion gwarchoddedig i sicrhau bod buddion buddsoddiad y prosiect yn cael eu huchafu ar gyfer y grwpiau hynny.

Y Gymraeg

Bydd Cadwyn Clwyd yn cyfathrebu am a hyrwyddo'r prosiect, y grantiau a ddyfarnwyd a'u deilliannau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Cadwyn Clwyd. Anogir y rhai sy'n derbyn grant i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu prosiect wedi'u gyllido gan grant a'u gweithgareddau busnes ehangach. Mae cymorth ar gael ar [Helo Blod | Helo Blod \(gov.wales\)](#). Helo Blod yw'r cymorth i fusnesau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth cynghori a chyfieithu am ddim i'ch cynorthwyo i ddefnyddio rhagor o Gymraeg yn eich busnes.

Sero Net

Dylai ymgeiswyr i gronfa Sir Ddinbych Ffyniannus ystyried pwyslais Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfrannu at amcanion sero net ac ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Bydd ymyriaethau wedi'u seilio ar arferion gorau carbon isel neu garbon sero, defnyddio a chefnogi technoleg glân arloesol ble bo'n bosibl a chefnogi'r sgiliau cynyddol a'r cadwynau cyflenwi sy'n cefnogi sero net, ble bo'n bosibl. Dylai'r ymgeisydd fabwysiadu'r egwyddor o dwf glân a fydd yn cyfrannu'n uniongyrhol at ymrwymiad cyfreithiol y DU i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050.

Bydd yn ofynnol i'r holl ymgeiswyr ystyried sut y gall eu prosiectau weithio gyda'r amgylchedd naturiol i wireddu amcanion y prosiect a chefnogi twf gwyrdd ac – fel isafswm – ystyried effaith y prosiect ar natur a'n hasedau naturiol.

Cofrestr Asedau

Bydd Cadwyn Clwyd yn cadw cofrestr o'r holl asedau wedi'u caffael neu eu gwella ar gost o fwy na £5,000 (pum mil o bunnoedd) yn gyfangwbl neu'n rhannol gan ddefnyddio'r cyllid grant. Mae ased yn golygu unrhyw ased a brynir neu a ddatblygir gan ddefnyddio'r cyllid grant. Yn cynnwys offer neu unrhyw asedau eraill a allai fod yn Ased Sefydlog fel bo'n briodol yn y cyd-destun perthnasol, a byddant yn cael eu hystyried yn Asedau yn unol â hynny. Ystyr Asedau Sefydlog yw unrhyw ased sy'n cynnwys offer wedi'i gaffael, ei ddatblygu, ei wella neu ei lunio yng nghyswllt y gweithgareddau a gyllidwyd gyda gwerth, ar ddyddiad ei brynu, o £5,000 (pum mil o bunnoedd) o leiaf. Rhaid i asedau a brynir gan y prosiect gyda chyllid grant gael eu defnyddio yn y modd y nodwyd gan y fenter yn y ffurflen gais yn unig. Bydd y fenter yn darparu'r wybodaeth isod i Cadwyn Clwyd yn achos pob Ased yn y gofrestr:

- i. Perchennog yr Ased;
- ii. Dyddiad caffael neu wella'r Ased;
- iii. Disgrifiad yr Ased;
- iv. Cost yr ased, net o unrhyw Dreth ar Werth y gellir ei adfer;
- v. Lleoliad yr Ased;
- vi. Rhifau adnabod yr Ased;
- vii. Dyddiad gwaredu'r Ased;

- viii. Y polisi dibrisio/amorteiddio sy'n berthnasol i'r Ased;
- ix. Yr elw yn dilyn gwerthu'r Ased, net o unrhyw Dreth ar Werth; a Manylion unrhyw unigolyn y trosglwyddwyd neu y gwerthwyd yr Ased iddo.

Dylai'r fenter gadw'r Asedau am y Cyfnod Perchnogaeth Asedau. Lle bo'r prosiect yn defnyddio unrhyw gyfran o'r cyllid grant i ddatblygu, gwella neu brynu unrhyw Asedau, rhaid i'r fenter sicrhau bod yr Asedau'n cael eu cynnal mewn cyflwr da yn ystod y Cyfnod Perchnogaeth Asedau. Rhaid i'r fenter sicrhau nad yw unrhyw asedau a brynwyd neu a adferwyd neu eu cadw rhag difrod neu eu gwella gyda'r cyllid grant, yn rhannol neu'n gyfangwbl, yn cael eu gwaredu yn ystod y Cyfnod Perchnogaeth Asedau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cadwyn Clwyd. Mae gwaredu'n golygu gwerthu neu drosglwyddo ased neu unrhyw fuddiant mewn unrhyw ased ac mae'n cynnwys unrhyw gytundeb i waredu, a bydd gwaredu a gwaredwyd yn cael eu deall yn unol â hynny. Os yw Cadwyn Clwyd yn rhoi caniatâd i waredu, gallai caniatâd o'r fath fod yn ddarostyngedig i amodau penodol, i'w penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cynnwys addalu rhan neu'r cyfan o'r cyllid grant gan y fenter. Os yw'r fenter yn gwaredu asedau heb ganiatâd Cadwyn Clwyd, bydd gwerth llawn y cyllid grant a wariwyd ar yr ased hwnnw yn daladwy i Cadwyn Clwyd. Bydd y fenter yn sicrhau nad yw perchennog unrhyw ased yn creu unrhyw arwystl, morgais cyfreithiol, debentur neu hawlrwym dros unrhyw ased heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cadwyn Clwyd.

Monitro a Gwerthuso

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cadw'r hawl i archwilio sut mae sefydliadau yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus. Rhaid i Cadwyn Clwyd gydymffurfio â chais archwilio yn unol ag amserlenni penodol a gellid cysylltu â'r rhai fu'n rhan o brosiectau i ddarparu tystiolaeth gwariant.

Datganiad Preifatrwydd Cadwyn Clwyd

Mae Cadwyn Clwyd yn trin preifatrwydd data yn ddifrifol iawn ac mae'n cydymffurfio â phob agwedd o fframwaith ddeddfwriaethol diogelu data y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig ei hun. Cewch weld ein [polisi preifatrwydd](#) sy'n egluro sut rydym ni'n diogelu eich hawliau personol chi.

Atodiad A

Llenwi Ffurflen Hawlio Taliad

Er mwyn derbyn taliad rhaid i ymgeiswyr sydd wedi derbyn Llythyr Dyfarniad yn cymeradwyo rhoi grant Sir Ddinbych Ffyniannus iddynt ddilyn proses hawlio taliad Cadwyn Clwyd drwy'r cyfrwng grantiau ar-lein, Submit. Caiff yr Ymgeisydd lenwi'r ffurflen hawlio unwaith y bydd wedi talu am yr holl eitemau yn eu cais am grant.

Os rhaid, gall Cadwyn Clwyd rannu taliadau mewn i uchafswm o 2 hawliad, gyda'r hawliad olaf yn cael ei gyflwyno cyn 30ain o Dachwedd 2025.

Bydd angen i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r gofynion a ganlyn wrth hawlio gan Cadwyn Clwyd:

- **Treth ar Werth (TAW):** Dim ond TAW na ellir ei hawlio yn ôl y gellir ei hawlio trwy gronfeydd Undeb Ewropeaidd. Os yw sefydliad yr ymgeisydd yn medru adfer TAW gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yna ni ellir cynnwys hyn ar y ffurflen hawlio i Cadwyn Clwyd a rhaid i'r holl gostau sy'n cael eu hawlio beidio â chynnwys TAW. Fodd bynnag, os na all sefydliad yr ymgeisydd adfer TAW, byddant yn medru hawlio hyn yn ôl gan Cadwyn Clwyd, ond bydd angen darparu datganiad ffurfiol yn esbonio pam na all y sefydliad adfer TAW.

- Dylai anfonebau fod am 100% y costau yn yr hawliad grant a heb eu rhannu neu eu dosrannu ar draws cyllidebau eraill yn eich busnes / sefydliad. Nodwch, os gwelwch yn dda, y bydd Cadwyn Clwyd yn talu cyfradd ymyriad cymeradwy (70%) yr hawliad. Os yw'r ymgeisydd yn hawlio llai na'r swm a gymeradwywyd, yna bydd Cadwyn Clwyd yn talu 50% y swm a hawliwyd nid 70% y swm a gymeradwywyd.
- Bydd angen i'r ymgeisydd gadw anfonebau gwreiddiol a datganiadau banc am gyfnod o 10 mlynedd o ddyddiad diwedd y cyfnod cyllido (tan 31 Rhagfyr 2034 o leiaf), neu nes bo Cadwyn Clwyd yn cynghori y gellir eu gwaredu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr anfonebau gwreiddiol ar gael i'r archwilwyr eu gweld pan fo'n ofynnol ac i gydymffurfio â gofynion cadw dogfennau'n gysylltiedig â'r grant.
- Cyflwynwch un hawliad i Cadwyn Clwyd yn unig ble bo'n bosibl, os yw eich llif arian yn caniatâu hynny. (Trafodwch hyn â'r Swyddog Prosiect Grantiau Busnes os nad yw hyn yn bosibl, os gwelwch yn dda.)

Y dystiolaeth sy'n ofynnol wrth gyflwyno hawliad:

Yn achos pob eitem a brynwyd trwy gyfrwng y grant Sir Ddinbych Ffyniannus, darparwch yr isod, os gwelwch yn dda:

1. **Copi'r anfoneb(au) a dalwyd:** yn dangos 100% o gost yr eitem sy'n cael ei hawlio. Rhaid i'r anfoneb fod yn enw eich busnes neu eich sefydliad chi. Bydd anfonebau'n cael eu gwirio i ddilysu eu bod yn unol â chais y prosiect a gymeradwywyd. Ni fydd Cadwyn Clwyd yn ystyried eitemau yn eich ffurflen hawlio nad ydynt wedi'u rhestru yn y ffurflen gais a gymeradwywyd. Sicrhewch fod y ddogfen gyfan wedi'i chopio ac nad yw darnau ar goll. Os ydych wedi archebu eitemau na thalwyd amdanynt gyda'r grant, rhowch linnell drwyddant. Nid yw cadarnhad archeb a/neu nodiadau danfon yn cael eu derbyn fel anfonebau; mae hwn yn gamgymeriad cyffredin yn enwedig pan fydd pryniannau ar-lein wedi'u gwneud.
2. **Datganiad(au) Banc:** i ddangos bod busnes / sefydliad yr ymgeisydd wedi talu am yr eitem / costau sy'n cael eu hawlio. Rhaid i enw busnes / sefydliad yr ymgeisydd, rhif y cyfrif a'r cod didoli fod yn weladwy. Mae datganiadau ar-lein ac sgrînluniau yn dderbyniol ond os nad ydynt yn dangos enw busnes / sefydliad yr ymgeisydd dylech gyflwyno un copi o ddatganiad banc hefyd i ddarparu tystiolaeth o enw'r cyfrif banc, os gwelwch yn dda. Gellir cuddio / gorchuddio trafodion nad ydynt yn ymwneud â'r grant yn ogystal ag unrhyw falansau ar y datganiadau.
3. **Tystiolaeth yr eitemau a brynwyd:** Darparwch ffotograff o'r eitem a brynwyd trwy gyfrwng y grant. Os na ellir tynnu llun yr eitem, darparwch dystiolaeth addas arall os gwelwch yn dda. Gall y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes roi cyngor i chi ynghylch beth sy'n cael ei ystyried yn dystiolaeth addas, os oes angen.
4. **Deilliannau Cronfa Ffyniant Gyffredin a gyflawnwyd:** bydd yn ofynnol i chi roi tystiolaeth o ddeilliannau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin mae eich grant chi wedi'u cyflawni h.y. nifer y swyddi a grewyd, nifer y swyddi a ddiogelwyd, nifer y mentrau wedi cyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd neu wedi'u gwella, nifer y mentrau

wedi mabwysiadu technolegau neu brosesau newydd i'r cwmni o ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd, a nifer y mentrau â chynhyrchiant gwell, o ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd. Gall y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes roi cyngor am yr hyn sy'n dystiolaeth addas os oes angen.

5. **Holiadur Monitro a Gwerthuso:** bydd yn ofynnol i chi lenwi holiadur byr i gynorthwyo Cadwyn Clwyd gyflwyno adroddiad i'r Awdurdod Arweiniol a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

- Rhaid i'r holl ddogfennau a gyflwynir i gefnogi eich cais fod yn ddarllenadwy.
- Os yw'n bosibl nodwch y taliadau'n glir ar eich datganiadau banc (e.e. uwchleuo'r symiau perthnasol) a chyfeirnod dogfennau fel ei bod yn hawdd eu cyfateb i bob eitem / trafodion sy'n cael eu hawlio.

Tystiolaeth caffael: Nid oes angen darparu dyfynbrisiau gyda'r ffurflen hawlio gan eu bod wedi'u darparu eisoes ar y cam gwneud cais am grant. Dylai'r holl drafodion rydych chi'n eu cynnwys yn eich hawliad fod y dyfynbris isaf ar gyfer yr eitem fel y nodwyd yn eich ffurflen gais am grant.

Nodwch: Mae'n bosibl bydd angen gwiriad sampl o'r eitemau a brynwyd cyn taliad yr hawliad grant. Bydd y gwiriad sampl angen digwydd yn y cyfeiriad busnes sydd wedi'w nodi ar y ffurflen gais.

[Rhaid i'r holl brosiectau llwyddiannus gael eu cwblhau a hawlio'r grant ar eu cyfer erbyn 30ain o Dachwedd 2025 fan bellaf.](#)



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



SIR DDINBYCH FFYNIANNUS TYSTIOLAETH DEILLIANNAU



NIFER Y SWYDDI WEDI'U CREU

- Cyflogwr i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig bod y swydd wedi'w greu . Cynhwyswch fanylion y swydd, dyddiad cychwyn, hyd, a nifer yr oriau yr wythnos.

- Unrhyw ddogfennau eraill yn dangos y swyddi a grëwyd ymwneud â'r prosiect.



NIFER Y SWYDDI WEDI'U DIOGELU

- Cyflogwr i ddarparu datganiad bod y swydd mewn perygl yn ystod y chwe mis nesaf - cynhwyswch deitl swydd a nifer yr oriau yr wythnos



CYNHYRCHION NEWYDD NEU WEDI'U GWELLA

- Dogfennau i gadarnhau manylion y cynnyrch/gwasaneth newydd neu gwell e.e. rhestrau prisiau, eitemau newydd ar wefan.

- Os nad yw'r cynnyrch neu gwasanaeth wedi symud ymlaen i'r farchnad, dylai'r fenter ddarparu gwybodaeth am statws y cynnyrch neu'r gwasanaeth.



TECHNOLEGAU NEU BROSES AU NEWYDD I'R CWMNI

- Datganiad gan y fenter sy'n darparu manylion am dechnolegau neu brosesau newydd y cwmni.

- Cynnwys sgrinluniau o'r wefan, lluniau o'r technoleg newydd (e.e. peiriannau).



MENTRAU SYDD Â CHYNHYRCHIANT GWELL

- Datganiad gan y fenter yn manylu ar sut y cafodd cynhyrchiant ei wella.